Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen

Rhoscolyn
Caergybi
LL65 2DX

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 106 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 84 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 7.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 22.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 29/01/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus â disgyblion, staff a rhieni. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn meithrin diwylliant cadarnhaol sy'n hybu dysgu proffesiynol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff ddatblygu eu medrau. Mae'r cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu gan athrawon yn ddiddorol ac yn datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gelfydd.

Mae disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol a chwilfrydig, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn mewn medrau llafaredd, darllen, ysgrifennu a mathemateg. Er bod cynnydd priodol mewn medrau llafaredd a darllen Cymraeg disgyblion, mae'r lleiafrif yn llai hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'r chwarae. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o destunau yn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn y ddwy iaith.

Mae staff yn cynnig profiadau dysgu cyfoethog, sy'n cynnwys tasgau ymarferol a gweithgareddau celfyddydol gwerthfawr. Mae gwaith celf disgyblion yn elfen nodedig ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r celfyddydau mynegiannol yn effeithiol. Mae'r defnydd o'r ardaloedd allanol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion yn fuddiol.

Mae perthynas weithio gryf rhwng staff, disgyblion a rhieni, sy'n hybu parch a chyfathrebu effeithiol. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn herio a chefnogi arweinwyr yn fwriadus.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, cefnogol ac ysbrydoledig lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus, chwilfrydig ac ymroddedig.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i ddatblygu medrau llafar a darllen Cymraeg er mwyn gwella hyder a rhugldder y disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Santes Gwenfaen yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus â disgyblion, rhieni a staff. Mae hyn yn seiliedig ar greu amgylchedd lle mae lles disgyblion yn rhan ganolog o waith yr ysgol, yn ogystal â chodi safonau. Mae hyn yn arwain disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a pharchus sy'n barod i lwyddo. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi addysgu yr holl staff. Darperir cyfleoedd buddiol i staff ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Ar draws yr ysgol, mae ystod o brofiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion yn hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus. Ar y cyd, mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol, ysgogol a pherthnasol sy'n datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gelfydd.

Mae medrau llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol o'u mannau cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod amrywiaeth o destunau yn aeddfed. Fodd bynnag, mae diffyg hyder gan leiafrif y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Mae medrau darllen llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr rhugl a hyderus yn y Saesneg. Fodd bynnag, er bod cynnydd priodol ym medrau darllen Cymraeg  mwyafrif y disgyblion, nid ydynt yn hyderus wrth drafod cynnwys testunau Cymraeg. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog a rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau difyr yn y ddwy iaith. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu, ac maent yn ymfalchïo yn eu gwaith, ac yn ei gyflwyno'n ddestlus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi mathemateg. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol gwahanol ar lefel sy'n addas i'w hoedran a'u cam datblygu. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n cefnogi disgyblion i gymhwyso ehangder a dyfnder da o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd gan athrawon i werthuso eu gwaith eu hunain ac i roi sylwadau ar waith eu cyfoedion, gan feithrin ymdeimlad cryf o berchnogaeth dros eu dysgu. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i werthuso eu

gwaith, gan gynnwys adborth adeiladol a chwestiynau treiddgar i herio meddwl y dysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o'u camau nesaf ac yn deall sut i wella eu gwaith.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio â'i gilydd yn llwyddiannus. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn tasgau ymarferol yn rheolaidd, fel coginio neu weithgareddau celfyddydol. Mae athrawon yn rhannu arbenigedd ar draws y ddarpariaeth yn effeithiol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygu medrau celfyddydau mynegiannol a chreadigol disgyblion yn werthfawr. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau celf yn elfen nodedig wrth iddynt wneud cynnydd adeiladol wrth iddynt arbrofi, ymchwilio, creu a mireinio eu gwaith. Mae hyn yn ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn ennyn a chynnal eu diddordeb ac ymrwymiad i'w dysgu yn llwyddiannus.

Mae staff yn gwneud defnydd medrus o'r ardaloedd allanol er mwyn galluogi'r disgyblion ieuengaf i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae ardal y goedwig yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb ac ymrwymiad y disgyblion yn effeithiol. Trwy weithgareddau fel crefft coed, heriau tîm a datrys problemau, mae disgyblion yn dysgu rheoli risg, dangos dyfalbarhad ac adeiladu medrau cydweithio. Trwy hyn, mae lles a medrau cymdeithasol bron bob disgybl yn datblygu'n dda.

Mae cymuned gynhwysol yr ysgol yn un lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac maent yn awyddus i gyfranogi yn yr ystod o brofiadau dysgu o'u cyfnod cynharaf yn yr ysgol. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn chwilfrydig wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd gyda hyder cynyddol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion sydd ar yr amrywiol bwyllgorau yr ysgol yn cyfrannu eu syniadau ac yn dylanwadu'n effeithiol ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda. Mae'r pwyslais a roddir ar drafodaethau ymysg staff a rhieni ynghyd â chynnal gwerthusiadau o gynnydd disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddarparu darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl. Mae'r trefniadau anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae'r berthynas waith rhwng staff â rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd y disgyblion a gwaith yr ysgol yn rheolaidd.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i arweinwyr a staff yr ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol a rheolaidd gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol, ac maent yn defnyddio eu profiadau o'u hymweliadau cyson i herio a chefnogi'r arweinwyr gyda'u gwaith. Mae cynllun clir ar waith i gefnogi amcanion strategol yr ysgol, er enghraifft wrth i

staff ddarparu rhaglenni i hyrwyddo lles a medrau chymdeithasol disgyblion, a datblygu eu medrau llythrennedd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026